

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

07/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

01/02/2016

## **Diweddariad o'r Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Ffigurau allweddol o Gam 10**

### **Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

#### **Cefndir**

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinweoedd pobl a fu farw yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym i sicrhau bod gan y cyhoedd wybodaeth lawn am yr hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu a'r dewisiadau y gallan nhw eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a chyfrannu at ei datblygiad, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith rhoi organau ac agweddau at y newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

I fodloni'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Caiff data eu casglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016 a chaiff adroddiadau ar y data hyn eu cyhoeddi bob chwe mis, sef ym mis Mehefin a mis Rhagfyr bob blwyddyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf, ar gamau 8 a 9, ar 1 Rhagfyr 2015.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer cam 10 rhwng 16 a 27 Tachwedd 2015 (1,000 o ymatebwyr). Cynhaliwyd rhywfaint o gyfweiliadau wedi'r dyddiadau hyn. Bwriad yr arolwg yw cynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Dyma oedd y cyfle olaf i fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith rhoi organau cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2015. Mae'r diweddariad hwn yn cael ei gyhoeddi ar yr adeg hon gan ei fod yn


darparu'r ffigurau ymwybyddiaeth allweddol ychydig cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd adroddiad llawn a fydd yn cyflwyno canfyddiadau manwl o gamau 10 ac 11 o'r arolwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2016.

## Canfyddiadau allweddol

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau. Yng ngham 9, dywedodd oddeutu saith o bob deg (69 y cant) eu bod yn ymwybodol o newidiadau. Cynyddodd hyn i 74 y cant yng ngham 10.

**Ffigur 1: A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau? <sup>a</sup>**




Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10 Tachwedd 2015)

(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?'

## Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

- Cafodd yr holl ymatebwyr weld disgrifiad o'r system newydd ar gyfer rhoi organau a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani o'r blaen. Yng ngham 9, dywedodd oddeutu saith o bob deg o ymatebwyr (72 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Cynyddodd hyn i 75 y cant yng ngham 10.

**Ffigur 2: A ydych wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid hwn cyn heddiw?** <sup>a</sup>  
(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)




Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10, Tachwedd 2015)

(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y bwriad hwn cyn heddiw?'

## Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych erioed wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eich dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eich marwolaeth?' Yng ngham 9, dywedodd 46% o'r ymatebwyr eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu. Cynyddodd hyn i 47% yng ngham 10.

**Ffigur 3: Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cael trafodaeth rywbryd ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eu marwolaeth**



Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10 Tachwedd 2015)

## Y Camau Nesaf

Bydd adroddiad llawn a fydd yn cyflwyno canfyddiadau manwl o gamau 10 ac 11 o'r arolwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2016.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Rebecca Cox

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: [rhoi.organau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:rhoi.organau@cymru.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gyndeithasol Llywodraeth Cymru, 1 Chwefror 2016

ISBN: 978-1-4734-5836-9

© Hawlfraint y Goron 2016



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>